

# Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

# Rheolaeth Newid Hinsawdd ac Amgylcheddol

## Pecyn Recriwtio

# Croeso gan y Pennaeth Gwasanaeth



DAVID COOIL
PENNAETH GWASANAETH ACGCC

Yn yr ACGCC rydym yn helpu i greu rhwydwaith ffyrdd sy'n cysylltu pobl a lleoedd mewn modd mwy diogel,  a mwy dibynadwy.

Rydym yn gweithio ar brosiectau ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru sy'n mynd i'r afael â rhai o heriau mwyaf tyngedfennol y wlad. O seilwaith cymhleth, cynyddu anghenion trafnidiaeth, a newid yn yr hinsawdd – rydyn ni'n cyfuno arloesi, arbenigedd a thechnoleg i wneud Gogledd a Chanolbarth Cymru yn lle gwell i fyw, gweithio ac ymweld ag ef.

Gallwch gyfrannu at waith fydd yn cael effaith gadarnhaol barhaol ar eich cymuned leol gyda sefydliad lle mae amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant yn werthoedd a rennir. Rydym wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd gwaith sy'n gefnogol, yn barchus ac yn gynhwysol, gyda chyfleoedd gwych ar gyfer twf.

Beth am roi cynnig arni? Byddem yn hapus iawn i ystyried eich cais i ymuno â'n tîm medrus, brwdfrydig a chyfeillgar.




# Ble rydym wedi'n lleoli

## Dros 250 o weithwyr ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru.



- **Aberaeron, Ceredigion**
- **Bangor, Gwynedd**
- **Conwy**
- **Dolgellau, Gwynedd**
- **Helygain, Wrecsam**
- **Llandrindod, Powys**
- **Drenewydd, Powys**



# Teitl y swydd: Rheolaeth Newid Hinsawdd ac Amgylcheddol

Ydych chi'n mwynhau her ac yn hoffi amrywiaeth? Os felly, yna efallai mai'r swydd hon yw'r peth i chi. Rydym yn chwilio am Rheolaeth Newid Hinsawdd ac Amgylcheddol i ymuno â thîm cyffrous sy'n tyfu.

**Cyflog:** PS7 (SCP 41-43) £47,573 - £49,590

**Cyfnod:** Parhaol

**Lleoliad:** **Gweithio Hybrid** o un or swyddfeydd isod:

Parc Menai / Conwy / Helygain / Llandrindod / Aberaeron / Drenewydd / Dolgellau

**Dyddiad cau:** 27/07/2023

**Ffurflenni cais a manylion pellach ar gael trwy wefan Cyngor Gwynedd www.gwynedd.llyw.cymru neu drwy ffonio 01286 679076.**

**Ymgeisiwch**

# Pwrpas y swydd

Pwrpas y swydd ydi i gefnogi'r Rheolwr Busnes a Gweithrediadau Statudol a chynghori Tîm Rheoli Asiantaeth a staff ar faterion amgylcheddol fel Rheolaeth Amgylcheddol, newid hinsawdd, gwella bioamrywiaeth a hybu arloesedd amgylcheddol ynghyd a chwarae rhan flaenllaw yn sicrhau bod ACGChC yn cyflawni eu rhwymedigaethau dan y Cytundeb Rheoli Asiantaeth Llywodraeth Cymru a Llawlyfr Cynnal a Chadw Cefnffyrdd Llywodraeth Cymru



# Cyfrifoldebau

- Cefnogi'r Rheolwr Busnes a Gweithrediadau Statudol a chynghori Tîm Rheoli Asiantaeth a staff ar faterion amgylcheddol
- Rheoli a darparu arweinyddiaeth gyda ffocws ar gyfer y Tîm Rheoli Amgylcheddol
- **Rheolaeth Amgylcheddol -** Arwain y Tîm Rheoli Amgylcheddol mewn ymrwymo eu swyddogaethau Rheoli Amgylcheddol ar gyfer y rhwydwaith cefnffyrdd yng Ngogledd a Chanolbarth Cymru, ac adran Dylunio, Adeiladu, Cyllido a Gweithredu'r A55 (DBFO) ar draws Ynys Môn. Rheoli'r System Asiantaeth Rheoli Amgylcheddol (EMS) sydd wedi'i hachredu i ISO 14001.
- **Newid Hinsawdd -** Arwain ar ddatblygu Strategaeth Newid Hinsawdd ar gyfer yr Asiantaeth gyda golwg ar gyrraedd targedau strategaeth carbon niwtral Llywodraeth Cymru erbyn 2030.
- **Darparu WGMAA/WGTRMM -** Sicrhau bod ACGChC yn cyflawni eu rhwymedigaethau dan y Cytundeb Rheoli Asiantaeth Llywodraeth Cymru a Llawlyfr Cynnal a Chadw Cefnffyrdd Llywodraeth Cymru.
- **Gwella bioamrywiaeth -** Datblygu a chyflwyno Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth ACGChC yn unol â gofynion LlC sydd wedi eu gosod yn y Cynllun Adfer Natur.
- **Arloesedd** - Hybu arloesedd amgylcheddol o fewn ACGChC a'i gadwyn gyflenwi
- **Cyngor arbenigol** - Gweithredu fel arweinydd yr asiantaeth ar holl faterion amgylcheddol a darparu cyngor arbenigol i uwch reolwyr a swyddogion yr Asiantaeth gan gynghori swyddogion LlC yn ôl yr angen.
- **Rheoli ac arwain -** Rheoli, arwain a mentora tîm amlddisgyblaethol o staff (14) fel a ganlyn: Ecolegwyr (2), Cydlynwyr Amgylcheddol (2) Swyddogion Amgylcheddol (4) a Thyfwr Coed (6) a datblygu diwylliant gweithio fel tîm cryf, gan osod a rheoli rhaglenni gwaith tîm a monitro cynnydd i sicrhau fod targedau'n cael eu cyrraedd, datblygu diwylliant gweithio fel tîm ac goruchwylio a rhoi arweiniad ar waith a wneir gan staff yr ydych yn eu rheoli.
- **Cyllideb Refeniw a Chynlluniau Cyfalaf -** Sicrhau y glynir at reoliadau a gweithdrefnau ariannol yr Asiantaeth a LlC, rheoli amryw o raglenni o gyfalaf a gwaith cyllideb refeniw amgylcheddol a sicrhau bod y cynlluniau'n cael eu cyflawni at amcangyfrifon cost a thargedau amser ac datblygu rhaglenni gwaith treigl wedi'u blaenoriaethu ar gyfer y rhwydwaith rhanbarthol yn unol â gofynion LlC ac yn y cyd-destun hwn, cysylltu ag Uned Danfon ac Archwilio ACGChC.




## Dylech gyfeirio at y meini prawf penodol i'r swydd hon yn eich ffurflen gais.

## Meini prawf penodol i’r swydd

Yr ydym yn chwylio am berson sydd ar gallu i arwain ac ysgogi tîm i gyflawni canlyniadau da, yn ymroddgar ac â’r gallu i gymell ei hun, ac sydd yn gallu gweithio dan bwysau.

## Cymwysterau a hyfforddiant perthnasol

Chwylio am berson sydd a radd neu gyfwerth briodol (Lefel 6) mewn pwnc technegol perthnasol

## Profiad perthnasol

Profiad o reoli staff/tîm mewn rôl uwch swyddog ac yr allu i reoli gweithgareddau cynnal a chadw amgylcheddol ac reoli prosiect a rheoli cyllid. Profiad o baratoi a darparu adroddiadau i amrywiaeth o gynulleidfaoedd ac profiad o reoli contract a gweinyddol hefyd yn hanfodol.

## Sgiliau a gwybodaeth arbenigol

Sgiliau a gwybodaeth gadarn o ddeddfwriaeth Amgylcheddol cyfredol, yr allu i ddarparu cyfeiriad strategol a chyngor ar faterion newid hinsawdd ac gallu trefnu blaenoriaethau gwaith tîm, cynllunio ymlaen llaw a chyflwyno rhaglenni gwaith yn brydlon. Gallu cydlynu’n effeithiol a rheoli cyflwyno rhaglenni gwaith drwy ddarparwyr gwasanaeth, gan sicrhau fod gwerth am arian a chydymffurfiaeth gydag anghenion y cynulliad yn cael eu cyflawni, ac gallu derbyn, cymhathu a gwerthuso gwybodaeth o amryfal ffynonellau. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus angen sgiliau rhyngbersonol cadarn ynghyd â sgiliau ysgrifennu a chyflwyno da, sgiliau TG da, ac sgiliau dadansoddi a rheolaeth ariannol.

## Gofynion ieithyddol

Mae’r gallu i siarad Saesneg yn hanfodol ar gyfer y rôl hon

# Gweithio i  Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

Mae ACGCC yn lle cyffrous i weithio.  Mae gennym bolisïau blaengar a rydym wedi ymrwymo i hyfforddi a

- 25 dyddiau o wyliau blynyddol y flwyddyn.
- 8.5 diwrnod o wyliau cyhoeddus a statudol.
- Gweithio'n hybrid o leiaf 2 ddiwrnod yn y swyddfa.
- Oriau gweithio hyblyg.

- Cyflog cynyddol.
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Ceir rhagor o  wybodaeth ar  wefan Cronfa Bensiwn Gwynedd.

- Cyfle i weithio mewn lleoliadau prydferth ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru gan gynnwys 1 parc cenedlaethol, 50 gwarchodfa natur a 1,680 milltir o arfordir trawiadol

- Cynlluniau cymorth i brynu car ac i feicio i'r gwaith
  Arbediadau siopa bwyd, gwyliau, mynd allan i fwyta, DIY, offer trydanol, yswiriant, moduro, a llawer mwy!

- Ystod eang o gyfleoedd hyfforddi a datblygu mewnol ac allanol.
- Diwrnod yr wythnos i gwblhau gradd prifysgol.
- Cyfraniad tuag at aelodaeth o gyrff proffesiynol sy'n berthnasol i'r gwaith

- Gwasanaeth Cwnsela MEDRA - gwasanaeth cwnsela cyfrinachol am ddim i staff.
- Absenoldeb hael ar gyfer mamolaeth, tadolaeth a mabwysiadu.